## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion Y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Mercher 23 Tachwedd 2005 am 9.30am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr S Thomas (Cadeirydd), J R Bartley, R E Barton, J Butterfield, J Chamberlain-Jones, J M Davies, M Ll Davies, S Frobisher, I M German, M A German, D Hannam, K N Hawkins, T K Hodgson, T R Hughes, N Hugh-Jones, H Jones, G M Kensler, P W Owen, N P Roberts, D A J Thomas, J Thompson-Hill, C H Williams, E W Williams, R Ll Williams.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygu, Arweinydd Tîm (Ceisiadau Mawr), Uwch Swyddog Cefnogi (G Butler), Swyddog Gweinyddol (Judith Williams) a Bryn Jones (Cyfieithydd).

## CAFWYD YMDDIHEURIADAU AM EU HABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr D Jones, S A Davies, M A Davies, E R Jones, H H Evans, G C Evans, M A German, M.A Webster

### 577 MATERION BRYS

Dim

### 578 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a rannwyd o'r blaen) gyda'r cynlluniau a gyflwynwyd ac sydd angen eu penderfynu gan y Cyngor.

***PENDERFYNWYD:-*** -

(a) *cadarnhau argymhellion y Swyddogion, sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynir yn awr, a chaniatáu neu wrthod, fel bo'r achos, ganiatâd cynllunio o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref 1994 a / neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ar gyfer y datblygiadau a gynigir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a geir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 01/2005/0301/PF | Datganodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra'r oedd yn cael ei drafod.<br><br>Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth: y Cynghorydd D Jones (Dinbych)<br>Newid defnydd tir rhandiroedd presennol i Ddosbarth D2 parc sglefrio<br>**Tir y tu ôl i Caledfryn, Ffordd Smithfield, Dinbych**<br>**CANIATÁU** Yn amodol ar Amod Diwygiedig 2 a Nodyn i'r Ymgeisydd<br>2. Cyn dechrau defnyddio'r parc sglefrio, rhaid cyflwyno manylion llawn o sut y bwriedir rheoli'r safle a sicrhau diogeledd a derbyn cymeradwyaeth ysgrifenedig yn eu cylch oddi wrth yr Awdurdod Cynllunio Lleol. |

Bydd raid gweithredu'r cynllun ar gyfer rheolaeth a diogeledd yn llawn o ddechrau ar y defnydd ac ar ôl hynny.
*Rheswm: Er budd mwynderau trigiannol*
**Nodiadau i'r Ymgeisydd:**

1. Mae'r caniatâd hwn yn berthnasol i newid defnydd y tir i barc sglefrio'n unig. Bydd angen caniatâd cynllunio pellach ar gyfer unrhyw ddatblygiad gweithredol ar ffurf gosod cyfarpar sglefyrddio, ffensio, mynedfeydd ar gyfer cerbydau / ar droed, unrhyw adeiladau neu unrhyw ddatblygiad gweithredol cysylltiedig.
2. Holodd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a oedd darpariaeth ai peidio ar gyfer toiledau ar neu ger y safle a pha drefniadau a wneir ar gyfer mynedfa i gerbydau ac i gerddwyr ac ar gyfer parcio ceir. Bydd raid talu sylw i'r materion hyn drwy ddatganiad cefnogol a / neu ddarpariaeth o fewn unrhyw gais cynllunio ar gyfer y datblygiad gweithredol.

03/2005/0893/PS

Tynnu amod rhif 5 o ganiatâd cynllunio rhif 03/2001/1114/PF i ganiatáu arddangos nwyddau ar y blaengwrt.
**4, Sgwâr Stryd y Castell, Llangollen**
Pleidlais:
Gofynnodd y nifer angenrheidiol o Aelodau am bleidlais gofnodedig. Gofynnodd y Cadeirydd i Aelodau bleidleisio o Blaid neu yn Erbyn yr argymhelliad i ganiatáu caniatâd cynllunio
**11 pleidlais o Blaid**
J M Davies, S Frobisher, I M German, K N Hawkins, T K Hodgson, N P Roberts, D A J Thomas, S Thomas, J Thompson-Hill, C H Williams, R Ll Williams
**10 pleidlais yn Erbyn**
J R Bartley, R E Barton, J Butterfield, J Chamberlain-Jones, M Ll Davies, D Hannam, T R Hughes, N Hugh-Jones, G M Kensler, E W Williams
Penderfynwyd **Caniatáu'r** cais

03/2005/0976/PF

Datganodd y Cynghorydd S Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol, gadawodd y Siambr tra'r oedd yn cael ei drafod a chymerodd y Cynghorydd R Ll Williams y gadair.
Cadw 10 carafán deithiol yn ystod y gaeaf
**Parc Carafannau Fferm Penddol, Ffordd yr Abaty, Llangollen**
**CANIATÁU yn amodol ar Amod Ddiwygiedig**
2. Mae'r caniatâd hwn yn unig ar gyfer cadw carafannau teithiol rhwng 31ain Hydref mewn un flwyddyn a'r 1af Mawrth yn y flwyddyn ddilynol ar y rhan honno o'r safle a ddiffinnir gan y cynllun lleoliad (graddfa 1:500) a dderbyniwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar 19 Medi

2005. Ni cheir cadw mwy na 10 carafán deithiol ac ni chaiff neb fyw mewn unrhyw garafán yn ystod y cyfnod 31ain Hydref mewn un flwyddyn a'r 1af Mawrth yn y flwyddyn ddilynol.

3. Rhaid cadw’r coed bytholwyrdd a’r prysglwyni collddail a’u cadw fel sgrin ar gyfer y carafannau ar hyd terfyn deheuol y safle a bydd raid plannu coed a phrysglwyni o rywogaeth a nifer tebyg yn ystod y tymor plannu dilynol yn lle unrhyw rai a fydd farw neu a fydd wedi’u difrodi.

18/2005/1068/PF

**Siaradwr o’r Cyhoedd Yn Erbyn : Mrs Imogen Sherriff**

Ar ôl ystyried nodiadau ymweliad safle a llythyrau ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth:

- Gyngor Cymuned Llandyrnog
- Pennaeth Trafnidiaeth a Seilwaith
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Newid ysgubor amaethyddol 9 cowlas ac ysgubor amaethyddol 6 cowlas gydag estyniadau yn 3 uned busnes gwledig hunangynhaliol (dosbarth B1) gyda pharcio cysylltiedig a mân newidiadau i’r ffordd ac adfer gwrych.

**Fferm Speddyd, Llandyrnog**

**CANIATÁU** Yn amodol ar Amodau Diwygiedig

3. “cymerwyd / anfonwyd”

10. “ar gyfer y safle a’r ffordd tuag ati”.

Ychwaneger ar ddiwedd amod 10:

“Bydd y cynllun manwl ar gyfer tirlunio caled a meddal yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cael gwared ar y pyst concrid a gwifren rwyd a rhoi terfyn addas yn eu lle gan gynnwys plannu gwrychoedd a choed cynhenid ".

11. “ar ôl dechrau ar y datblygiad bydd unrhyw goed neu blanhigion a fydd yn marw o fewn cyfnod o bum mlynedd…” ayb

**Nodyn Ychwanegol i’r Ymgeisydd:**

Fe'ch cynghorir fod rhaid i chi gydymffurfio gyda thelerau’r caniatâd cynllunio hwn, gan gynnwys yr holl amodau. Ynghylch y defnydd a ganiateir ac Amod Rhif 2, diffinnir busnes Dosbarth B1 fel defnydd a ellir ei gynnal mewn ardal drigiannol heb amharu ar yr ardal gyda sŵn, dirgryniad, aroglau, nwyon, mwg, huddygl, lludw llwch neu grut. (Dymunai’r Cynghorydd M Ll Davies iddo gael ei nodi nad oedd wedi pleidleisio a dymunai’r Cynghorydd N Hugh-Jones iddo gael ei nodi iddo bleidleisio i wrthod caniatâd).

43/2005/0876/PS

Ar ôl ystyried diweddariad ar baragraff 8(ii) tudalen 26 yn egluro fod y safle yn Nwyrain, nid Canol, Prestatyn.

Newid Amod 3 o ganiatâd cynllunio rhif côd 43/1997/0910/PO ar gyfer datblygu

2ha o dir drwy godi siop fwyd gyda chaffeteria, gorsaf betrol a datblygiadau cysylltiedig, gofyn am estyniad pellach i'r cyfnod y gellir dechrau datblygu hyd at 30 / 11 / 07.

**Tir ar y Stryd Fawr Prestatyn**

**CANIATÁU yn amodol ar Amod Ddiwygiedig**

**"**30 Tachwedd 2006"

Nodyn i'r Ymgeisydd:

Roedd y Pwyllgor Cynllunio, wrth ystyried y cais cynllunio, o'r farn fod cyfnod estynedig o 12 mis ar gyfer dechrau ar y datblygiad yn ddigonol, o gofio fod y broses o brynu gorfodol wedi cychwyn ac na fyddai angen oedi'n sylweddol ymhellach cyn dechrau ar y broses.

Pe ceid oedi na ellid ei ragweld yn y broses o brynu gorfodol gallai'ch cleient ymgeisio am amrywiad pellach i'r amod ymhen 12 mis.

(Dymunai'r Cynghorydd S Frobisher iddo gael ei nodi iddo bleidleisio i wrthod y cais). (Dymunai'r Cynghorydd C Williams iddo gael ei nodi ei fod wedi ymatal rhag pleidleisio).

43/2005/1033/PF

Datblygiad Masnachol Arfaethedig yn cynnwys 1393m (1500 troedfedd sgwâr) o arwynebedd busnes (Dosbarth B1) pedair uned mân-werthu cyfanswm o 5202 $m^2$ (56000 troedfedd sgwâr), lleoedd parcio, mannau gwasanaethu, arhosfan bws a mannau cylchdroi a mynedfa newydd o'r briffordd gyda thirlunio a gwaith safle cysylltiedig.

**Tir ar Ffordd Llys y Nant Prestatyn**

**CANIATÁU** yn amodol ar Gytundeb 106

Penderfynwyd Caniatau caniatâd cynllunio ar gyfer yr uchod, yn amodol ar fod yr ymgeisydd yn cytuno i gytundeb 106.

Yr eitemau canlynol a fyddai penawdau telerau'r cytundeb:

i) Gwaith priffyrdd oddi ar y safle gan gynnwys gwelliannau i'r Stryd Fawr / Ffordd Llys y Nant a chyffordd Ffordd y Bont / y Stryd Fawr.
ii) Darparu a / neu gyfrannu tuag at Ganolfan Groeso.
iii) gwella'r rhwydwaith priffyrdd i hyrwyddo cysylltiadau ar gyfer beicio.
iv) Maes parcio ar gael ar gyfer cyfuno teithio i ganol y dref ar gyfer siopa.
v) Darparu teledu cylch cyfyng ar y safle i gysylltu gyda system canol y dref.
vi) Darparu paneli gwybodaeth i dwristiaeth ar flaen y safle.
vii) Sicrhau fod y datblygiad cyflogi yn symud ymlaen yr un pryd neu cyn y datblygiad mân-werthu.

| | |
|---|---|
| 43/2005/1054/PF | Codi estyniad deulawr tô brig ar yr ochr flaen yn lle'r garej bresennol a thô brig i ddormer bresennol ar ochr yr anheddle.<br>**2 Stoneby Drive Prestatyn**<br>**CANIATÁU:**<br>(Dymunai'r Cynghorydd N Hugh Jones iddo gael ei nodi ei fod wedi pleidleisio yn erbyn. Dymunai'r Cynghorydd J Butterfield iddo gael ei nodi ei bod wedi ymatal rhag pleidleisio). |
| 43/2005/1117/PF | Codi anheddle ar wahân 4 ystafell wely ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a cherddwyr (Newid Cais Rhif Cyf 43/2004/1632/PF)<br>**Tir yn (rhan o ardd) 1 Bosworth Grove Prestatyn** |
| 44/2005/0655/PF | Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth: Gyngor Tref Rhuddlan<br>Defnydd o 1.0 ha o dir fel estyniad i barc busnes presennol i ddarparu darpariaethau cadw cynhwysyddion a ffurfio mynedfa gerbydau newydd.<br>**Tir ger Parc Busnes H T M, Ffordd Abergele, Rhuddlan, y Rhyl**<br>**CANIATÁU:** |
| 46/2005/1020/PF | **Siaradwr o'r Cyhoedd Yn Erbyn : J McCormick**<br>Ar ôl ystyried nodiadau o ymweliad safle a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2005.<br>Codi 6 garej a mannau parcio a gyflwynwyd yn unol â'r cynllun trigiannol a ganiatawyd o'r blaen ar gyfer 3 anheddle (Rhif Cyf 46/2005/0306/PF)<br>**Rhan o Safle yn Ffurfio Tir ger 1 Stryd Luc, Llanelwy CANIATÁU** Yn amodol ar Amodau Diwygiedig 3 a 4<br>3. Newid "codi" am "defnydd"<br>4. "Y garejys a'r mannau parcio a ganiateir drwy hyn…." |
| 46/2005/1042/PF | Datganodd y Cynghorydd S Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol, gadawodd y Siambr tra'r oedd yn cael ei drafod a chymerodd y Cynghorydd R Ll Williams y gadair.<br>Codi tŵr delltwaith tenau 17.5m o uchder, 3 antenna, 2 ddysgl, adeilad cyfarpar, cyfarpar cysylltiedig a therfyn i'r safle.<br>**Rhan o Gae Rhif AO 0006 Fferm Pen y Bryn, Ffordd y Mynydd, Llanelwy CANIATAU**<br>(Dymunai'r Cynghorydd S Frobisher iddo gael ei nodi ei fod wedi ymatal rhag pleidleisio). |

**Ymweliadau Safle**

| | |
|---|---|
| 01/2005/0865/PF | Dymchwel 5 bwthyn adfeiliedig ac ail ddatblygu'r safle drwy godi rhes o 4 |

| | |
|---|---|
| | anheddle a ffurfio man parcio newydd a mynedfa gerbydau newydd **Tir y tu ôl i 43 Love Lane, Tan y Gwalia, Dinbych** |
| 01/2005/1119/CA | Dymchwel 5 tŷ **Tir y tu ôl i 43 Love Lane, Dinbych** |

**Gwrthod (Yn groes i'r Argymhelliad)**

45/2005/0445/PO

**Siaradwr o'r Cyhoedd Yn Erbyn : Mr H E Roberts,**
Ar ôl ystyried nodiadau ymweliad safle a llythyrau ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth: Bennaeth Trafnidiaeth a'r Gwasanaeth Tân ac Achub
Dymchwel yr anheddle presennol a datblygu'r tir drwy godi 17 o fflatiau newydd gyda mynedfa gysylltiedig ar gyfer cerbydau a cherddwyr (cais amlinellol)
**Tir yn Stryd Tarleton, y Rhyl**

**GWRTHOD** am y rhesymau canlynol.

1. Mae'r briffordd at y datblygiad arfaethedig yn annigonol gyda phalmant cul ar yr ochr orllewinol yn unig, parcio ar y ffordd ac mae'n gul. Byddai'r cynnig yn arwain at ragor o symudiadau gan gerbydau a cherddwyr ar hyd Stryd Tarleton a fyddai, oherwydd ei chymeriad, yn debygol o arwain at gynnydd yn y perygl a'r anghyfleustra i bob defnyddiwr y briffordd. Felly, mae'r cynnig yn groes i griteria (vi) a (vii) o Bolisi GEN 6 A Pholisi TRA 6 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych.
2. Byddai'r cynnig i godi 17 o fflatiau ar y safle'n debygol o arwain at orddatblygu'r safle oherwydd y byddai'r datblygiad yn dri llawr o uchder, perthynas y datblygiad gyda'r strydlun a'i effaith ar fan mwyniant cartref preswyl gerllaw. Mae'r cynnig yn groes i griteria (i) a (ii) o Bolisi GEN 6 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych.
   Gwnaed y penderfyniad sy'n GROES i Argymhelliad y Swyddogion am y rheswm canlynol:
   Gorddwyshau / gorddatblygu Mynediad

579 **<u>RHESTR O GEISIADAU A GAFODD EU DELIO O DAN HAWLIAU DIRPRWYEDIG</u>**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd ei adroddiad ysgrifenedig (a rannwyd o'r blaen) o ymgeiswyr am Ganiatâd Cynllunio ac a gafodd eu penderfynu ganddo ef o dan hawliau dirprwyedig rhwng 1 a 31 Hydref 2005.

**PENDERFYNWYD - derbyn yr adroddiad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.50p.m.

*********